**Elin McCallum Bantani Education, Arbenigwr i'r Comisiwn Ewropeaidd, Sefydliad Hyfforddi Ewropeaidd a UNESCO-UNEVOC – Rhagair a myfyrdodau**

Mae’r Drindod Dewi Sant wedi bod yn arloeswr o ran datblygu addysg a hyfforddiant entrepreneuraidd ar gyfer gwledydd o gwmpas y byd, yn ogystal ag yng Nghymru ei hun. Mae’r wybodaeth drosglwyddadwy hon a’r profiad wedi deillio o weledigaeth ac ymrwymiad y brifysgol, ac wedi’u cefnogi gan y buddsoddiad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill yn y flaenoriaeth strategol hon.

Yn ystod y broses adolygu hon, mae’n amlwg bod profiadau dysgu entrepreneuraidd wedi’u hymgorffori ar draws llwybrau myfyrwyr drwy’r dysgu, addysgu a chyfarwyddyd gyrfaoedd, gydag ystod o gymorth ar gyfer busnesau newydd gan fyfyrwyr yn gyrru nifer uchel o fusnesau cynaliadwy newydd mewn prifysgol fach. Mae cymwyseddau entrepreneuraidd yn cael eu gwerthfawrogi gan fyfyrwyr ac athrawon ac yn werthfawr iddynt, tra bod dysgu ac addysgu entrepreneuraidd yn cael eu cefnogi gan lefel uchel o ymgysylltu â’r gwaith o gynllunio, darparu ac asesu cyrsiau gan randdeiliaid cymunedol a busnes. Mae dylanwad y brifysgol ar arloesi mewn dysgu ac addysgu ar lefel y DU ac yn rhyngwladol yn eglur, ac enghraifft benodol o hyn yw ei chyfraniad wrth gynllunio’r Fframwaith Addysg Menter ac Entrepreneuriaeth[1] ar gyfer AdvanceHE yn ddiweddar i helpu sefydliadau a staff addysgu gyflwyno gweithgareddau a phrofiadau er mwyn i fyfyrwyr ddatblygu ac arfer bod yn fentrus ac yn entrepreneuraidd.

Mae lle i o hyd i wella manylder ac ehangder yr ymgysylltu o bob rhan o’r brifysgol. Tra mae llawer o’r staff addysgu’n cyfrannu eisoes, nid yw hyn yn gyffredinol hyd yn hyn a byddai mwy o hyfforddiant ar gyfer staff a dulliau o gydnabyddiaeth yn cefnogi hyn. Mae ymdrech parhaus i fapio dysgu entrepreneuraidd yn ôl canllawiau’r ASA[2] gan alluogi dealltwriaeth fwy eglur o’r cymwyseddau entrepreneuraidd a ddatblygir ar lefel cwrs. Bydd hyn yn dynodi’r bylchau/cyfleoedd i ddiwygio ac addasu cyrsiau, ac yn cyfeirio’r camau nesaf o ran darparu mwy o brofiad o’r broses entrepreneuraidd ar gyfer y myfyrwyr gan sicrhau bod yr holl gymwyseddau entrepreneuraidd yn cael eu cyfoethogi drwy’r broses ddysgu. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer busnesau newydd yn sylweddol, ond mae lle i ddatblygu ffocws ehangach ar entrepreneuriaeth gymdeithasol ac i ehangu’r lle ffisegol a neilltuir ar gyfer cefnogi a chartrefu darpar entrepreneuriaid busnesau newydd.

Mae’r holl waith hwn yn ymwneud â throsi ymrwymiad strategol y brifysgol i greadigrwydd, arloesi ac entrepreneuriaeth yn weithredu ar lawr gwlad ar draws pob maes yn y sefydliad, gydag ymrwymiad eglur i barhau â’r gweithgarwch gan wella’n barhaus. Trwy’i gwaith,

[1] https://www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/framework-enterprise-and-entrepreneurship-education
[2] https://www.qaa.ac.uk/docs/qaas/enhancement-and-development/enterprise-and-entrpreneurship-education-2018.pdf?sfvrsn=15f1f981_8


mae’r Drindod Dewi Sant yn cymryd camau mawr ymlaen fel prifysgol entrepreneuraidd arloesol ac fel meddyliwr rhyngwladol arweiniol ar gyfer addysg entrepreneuraidd.

Elin McCallum - Yn wreiddiol yn weithiwr ieuenctid ac yn athro VET, mae Elin wedi arbenigo mewn addysg entrepreneuraidd am yr 16 mlynedd diwethaf. Ar ôl 12 mlynedd mewn rolau polisi addysg a datblygu economaidd gyda’r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, yn 2016 cyd-sefydlodd Bantani Education fel di-elw i yrru’r gwaith hwn yn ei flaen. Mae Bantani bellach yn gweithio’n fyd-eang i adeiladu cydweithrediadau newydd, datblygu rhwydweithiau cryfach, a chreu ffyrdd newydd o arloesi ac arbrofi ym maes addysg a dysgu entrepreneuraidd ar gyfer sgiliau bywyd. Bantani yw'r arweinydd arloesi ar gyfer nifer o fentrau'r UE, gan ddatblygu cymuned ymarfer fyd-eang trwy entrecomp360.eu, dylunio fframwaith cymhwysedd athrawon a chefnogi hyfforddiant trwy entrecompedu.eu a gweithio gyda llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol / cymunedau rhanddeiliaid yn entrecompeurope.eu. Mae hi wedi cyfrannu at astudiaethau Eurydice y Comisiwn Ewropeaidd ar entrepreneuriaeth ac addysg dinasyddiaeth, yn ogystal â chyhoeddiadau cysylltiedig ag EntreComp gan gynnwys ‘EntreComp into Action’ ac ‘EntreComp at Work’ a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

# Y Drindod Dewi Sant - Diogelu Addysg i'r Dyfodol: y rheidrwydd entrepreneuraidd. Gwneud effaith yn ystod 2019

Gan weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ac ar sail yr ymchwil a gafwyd gan eich sefydliad rhyngwladol dros ddatblygu creadigol, ein nod yw rhoi cyfle i bob myfyriwr feithrin eu cymwyseddau entrepreneuraidd, fel y nodwyd yn y fframwaith Entrecomp y gwnaethom ni helpu i'w ddatblygu.





Mae creadigrwydd ac arloesi wrth wraidd cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (i wella cyflogadwyedd graddedigion a nifer y graddedigion sy'n dechrau busnesau. Ein nod yw defnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r dechnoleg sydd gennym ar y cyd i alluogi'r brifysgol a'i graddedigion i gynnig atebion i'r heriau cymdeithasol brys mwyaf brys – yng Nghymru a thu hwnt. Rydyn ni'n benderfynol o adeiladu cymdeithas gynaliadwy sy'n cael ei gyrru drwy arloesi ac entrepreneuriaeth fentrus.

Mae dysgu arloesol a chydweithio yn y diwydiant bob amser wedi bod yn ffocws allweddol yn y brifysgol, gan greu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr a gwella eu rhagolygon ar ôl graddio. Mae'r dull unigryw hwn o ddod â myfyrwyr, academyddion a busnesau at ei gilydd yn eu galluogi i archwilio syniadau a chreu cyfleoedd ar gyfer datblygu busnesau, cynnyrch a gwasanaethau cynaliadwy newydd. Mae'r galluoedd hyn yn arbennig o bwysig mewn busnesau bach, lle mae llawer o raddedigion yn dymuno rhoi hwb i'w gyrfa.

Mae'r Drindod Dewi Sant wedi hen ennill ei phlwyf ym maes datblygiad entrepreneuraidd creadigol. Pam datblygiad entrepreneuraidd 'creadigol'? Oherwydd bod creadigrwydd yn sgil hanfodol ar gyfer unrhyw un, ar gyfer unrhyw yrfa a dydyn ni byth yn anghofio mai syniadau creadigol yw'r man cychwyn ar gyfer arloesi. Rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i fusnesau sy'n cychwyn, ac yn edrych ar y daith addysgol gyfan, fel yr adlewyrchir yn ein gwaith mewn ysgolion a datblygiad cwricwlwm newydd Cymru.

Mae gennym ni gysylltiadau rhyngwladol ac rydyn ni'n cefnogi llawer o wledydd eraill, a thrwy'r rhain rydyn ni hefyd yn dysgu ac yn dod â'n canfyddiadau yn ôl i Gymru. Drwy ymgysylltu ymhell y tu hwnt i'n rhwydweithiau lleol. Rydyn ni'n manteisio ar synergeddau drwy gymryd rhan mewn prosiectau Ewropeaidd a ariennir gan Eramus+ ac yn eu harwain. Ar hyn o bryd rydyn ni wrthi'n arwain Hwb Entrepreneuriaeth Ewrop i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, lle rydyn ni'n gweithio gyda 14 o bartneriaid o 7 o aelod-wladwriaethau'r UE i wella gallu entrepreneuraidd myfyrwyr y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Drwy helpu i ddatblygu EntrecompEdu, rydym yn rhannu arbenigedd gyda'n cydweithwyr ym maes addysg a myfyrwyr er mwyn gwella a gwerthuso eu cymwyseddau entrepreneuraidd.
I weld rhagor ewch i: https://www.artshumanitieshub.eu a http://entrecompedu.eu

> "Mae IICED Y Drindod Dewi Sant yn cael ei chydnabod yn eang yn un o sefydliadau blaenaf y byd mewn addysg entrepreneuriaeth sy'n seiliedig ar greadigrwydd. Yn ogystal â bod yn weithgar yn cynghori Llywodraeth y DU ym maes addysg entrepreneuriaeth, mae ei chyhoeddiadau hefyd wedi arwain trafodaethau ar lefel ryngwladol."
>
> Yves Punie Cydganolfan Ymchwil yr UE, 2016

I grynhoi, mae Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn ymwneud â chymunedau; rydyn ni'n dysgu oddi wrth ein pobl; myfyrwyr, graddedigion, staff a'n partneriaid sy'n ein cynnal, ac yn ein tro rydyn ninnau'n cynnal eraill drwy ein canfyddiadau.


## Ein melin drafod, datgloi potensial entrepreneuraidd








Rhwng 2019 a 2021 mae'r tîm Menter wrthi'n arwain nifer o weithgareddau myfyrwyr a staff a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i ddatblygu a meithrin pobl entrepreneuraidd hunangynhaliol a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni fod yn ymwybodol o ymchwil a chanfyddiadau arloesol cydweithwyr rhyngwladol - dysgu sy'n llywio ein dulliau gweithredu ac sy'n llywio ein syniadau. Ym 2019 buom yn 'arweinwyr meddwl a chynghorwyr' ar ddatblygiad prosiect 'EPIC' HEInnovate yr UE/OECD - gan ddatblygu offer asesu ystyrlon ar gyfer y gymuned Addysg Uwch, a'r bwriad yw ei lansio ar wefan yr OECD ar ddechrau 2020.
Mewn partneriaeth â Bantani Education a Phorth Addysg Ewrop, rydym wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r 'argyfwng creadigrwydd' - gan fod ymchwil yn dangos dirywiad sylweddol mewn ysgolion rhyngwladol.






Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru, drwy weithdai MDPh a darparu dau adolygiad annibynnol ar ddatblygu sgiliau ehangach ar draws y MDPh. Rydyn ni wrthi'n sicrhau y caiff piblinell entrepreneuraidd ei datblygu a fydd o fudd i bob dysgwr yng Nghymru.


## Ein myfyrwyr

Wrth i'n Hysgol Fusnes ddathlu, nid 'busnes fel arfer' amdani. Yn bwysig iawn, mae llawer o brosiectau wedi'u cynllunio i gefnogi ein cymuned, megis ein myfyrwyr rheoli busnes blwyddyn gyntaf a gododd dros £1200.00 ar gyfer elusennau lleol ar ôl cael y dasg o gyflawni prosiectau i helpu i lywio eu sgiliau entrepreneuraidd drwy ddysgu a chydweithio arloesol.





Roedd Matthew Kilgariff a Jordan Coller, yn gweithio'n fyfyrwyr-interniaid marchnata, i gwmni cydweithredol Egni, i gefnogi eu nod o osod hyd at 5,000kW o ynni solar ar 250 o safleoedd ledled Cymru, gan lwyddo i godi £473.000 mewn cyfranddaliadau cymunedol.





Mae gennym wyliau o fentergarwch, cystadlaethau, hacathonau, interniaethau, a lle i fyfyrwyr gynnal digwyddiadau, gan gynnwys siopau dros dro.

Nid *Busnes Fel Arfer* yw hi ar **Gampws Busnes Abertawe**. Cafodd yr holl raglenni eu llunio mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr y diwydiant ac fe'u lluniwyd i roi i raddedigion y priodoleddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw megis arloesedd, creadigrwydd a meddylfryd mentrus. Cynigia llawer o'n cyrsiau achrediad gyda chyrff proffesiynol megis ILM, CIPD ac ACCA.













## Mewn rhifau

Mae 1712 o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o gychwyn busnes yn opsiwn gyrfa.

cafodd 608 o fyfyrwyr eu grymuso trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu eu gallu entrepreneuraidd
300 o fyfyrwyr wedi cael y sgiliau i roi prawf ar eu syniadau busnes
Derbyniodd 93 o fyfyrwyr a graddedigion gymorth i fwrw ymlaen â'u busnesau eu hunain.
Dechreuodd 72 fusnes naill ai wrth astudio neu ar ôl graddio.
12 o hyrwyddwyr academaidd menter wedi'u galluogi i wella gweithgareddau'r cwricwlwm a'r rhai allgyrsiol.

## Ein cymuned

Ymgysylltu â'n cymuned; mae cydweithio er mwyn creu effaith fasnachol, gymdeithasol a diwylliannol ystyrlon yn hollbwysig. Mae'r Swigen Greadigol yn gydweithrediad ag AGB Abertawe, lle rydyn ni'n datblygu gweithgareddau ymgysylltu'n barhaus i wneud Canolbwynt Masnachol Dinas-ranbarthau Bae Abertawe yn lle gwell i siopa, aros, astudio a gwneud busnes ynddo ac ymweld ag ef. Y nod ar y cyd, yn syml, yw gwella a thyfu economi a bywiogrwydd yr ardal. Uned fanwerthu wag yw'r Swigen Greadigol y gall myfyrwyr (a graddedigion) ei defnyddio i gynnal arddangosfeydd a rhedeg siopau dros dro. Y gwerth ariannol tybiedig yw £20.000, ond mae'r arbenigedd yn amhrisiadwy. Mae'r swigen greadigol hefyd yn cysylltu â busnesau lleol yn yr ardal i rannu gwybodaeth a phrofiad entrepreneuraidd â'r myfyrwyr. Cynhaliodd dros 300 o fyfyrwyr brosiectau symudol yn y siop yn ystod 2019 gan ddenu dros 3,500 o ymwelwyr. Mwy yn https://www.uwtsd.ac.uk/Creative-bubble/bubble-Facts/ a https://www.Facebook.com/swanseacreativebubble







Siop Celf Gain dros dro yn y Swigen Greadigol ac ymweliad gan Brifysgol Toyo yn 2019

Mae ein cynfyfyrwyr entrepreneuraidd yn gaffaeliad mawr i ni, (700 + yn rhedeg eu busnesau eu hunain), maen nhw'n barod i rannu eu harbenigrwydd, megis ein patrwm Surface alumnus o 2014, Harriet Popham, a rannodd ei phrofiadau dros bitsa, wrth lansio siop dros dro i'r myfyrwyr presennol, yn rhan o'n gweithgareddau Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang.





Un o raddedigion Dylunio Patrymau Arwyneb Harriet Popham yn siarad â myfyrwyr cyfredol.


## Ein staff

Mae ein His-Ganghellor yn cefnogi ac yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni, ac yn ein hannog i fynd ymhellach. Rydyn ni’n cynnal digwyddiadau blaenllaw sy'n manteisio ar arbenigedd lleol a rhyngwladol:-








Siaradwyr: O’r Drindod Dewi Sant yr Athro Emeritws Dr Andy Penaluna, Elin McCallum, Bantani Education, Is-Ganghellor Y Drindod Dewi Sant, Medwin Hughes, Carys Roberts, Rheolwr Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru a’r Athro Gwadd yn Y Drindod Dewi Sant Dr Colin Jones, ein cynulleidfa a'r llywydd un o’n cyn-raddedigion yn y celfyddydau perfformio Jay Smith yn y cyfarfod cydweithredol i Gymru gyfan ‘Dysgu Entrepreneuraidd- sut i fynd ati: pam mae'n bwysig a beth i’w wneud’. Lansiwyd hefyd fframwaith newydd AdvanceHE fframwaith - i addysgwyr- y gwnaethom ni helpu i'w ddatblygu.

I weld sylwadau gan gyfranogwyr ewch i:-
https://whytheworldwagstoday.wordpress.com/2019/11/12/from-comfort-to-growth-a-leap-of-faith/
https://emergentthinkers.com/2019/11/12/lifeworld-and-lifelong-development-the-transformative-power-of-entrepreneurial-learning/
a rhagor am Jay yma https://BusinessWales.gov.wales/bigideas/profile/jay-smith)

Mae ein hacademyddion a'n staff proffesiynol wedi ymrwymo i'n gweledigaeth i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd a chreadigol, ac maent yn eu cefnogi yn 12 hyrwyddwr academaidd menter, sy'n gweithio ar draws campysau a phynciau. Rydyn ni’n falch o nodi bod hyn yn cynnwys enillydd Gwobr Catalydd Mentrau Addysgwyr Menter y DU 2019, James Williams. Dysgwch ragor am ei ddosbarthiadau meistr mentrus, hacathonau a straeon myfyrwyr a graddedigion yma https://uwtsdcomputing.blog



Herio’r arferol i ddod o hyd i atebion; mae angen diogelu a rheoli'r creadigrwydd a'r arloesedd rydyn ni’n ymdrechu i'w symbylu yn ein holl weithgareddau. Un o nodweddion unigryw ein harlwy yw ein gweithdai eiddo deallusol, sydd ar gael i bob maes astudio, ac a ddefnyddir hefyd i gefnogi Syniadau Mawr Cymru yn eu sesiynau bŵt-camp. Gan ein bod yn gynghorwyr ar gyfer grŵp llywio Swyddfa Eiddo Deallusol y DU mewn Prifysgolion a Cholegau (IPUC), gallwn ddod â'r mewnwelediad diweddaraf i bob amgylchedd dysgu.

## Cysylltedd

Gall myfyrwyr, graddedigion, staff neu aelodau o'r gymuned gysylltu'n hawdd ag un clic i: enterprise@pcydds.ac.uk

## Diolch

Diolch yn fawr i'r myfyrwyr blwyddyn olaf, Kaylee Francis a Viv Collis am eu parodrwydd i ddarparu eu harbenigedd ffotograffig i gofnodi gweithgareddau’r Drindod Dewi Sant ac am y fraint o ddefnyddio gwaith un o’n graddedigion darlunio Karl James Mountford; dyfyniadau o gofnodion gweledol a dynnodd luniau o’n digwyddiadau gyda chyflymder anghredadwy ac mewn amser go iawn. I weld rhagor ewch i: https://www.uwtsd.ac.uk/art-Design/illustration/illustration-case-studies/Karl-Mountford/